**Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus**

—

**Public Accounts and Public Administration Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddCCGG@Senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddCCGG
0300 200 6565

—

**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddPAPA@senedd.wales
senedd.wales/SeneddPAPA
0300 200 6565

David Richards
Cyfarwyddwr Llywodraethiant a Moeseg
Llywodraeth Cymru

15 Hydref 2024

**Llawlyfr y Cabinet a Chod y Gweinidogion**

Annwyl Mr Richards,

Yn dilyn ein sesiwn dystiolaeth ddiweddar gyda'r Ysgrifennydd Parhaol, fe wnaethom gytuno i ysgrifennu i roi cyfle i chi ddarparu ymatebion i'r cwestiynau yr oeddem wedi bwriadu eu gofyn yn uniongyrchol i chi pe baech wedi gallu bod yn bresennol. Nodir y rhain yn Atodiad A.

Byddem yn ddiolchgar pe gallech ymateb erbyn 29 Hydref.

Cofion,

Mark Isherwood AS

Cadeirydd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.
We welcome correspondence in Welsh or English.

## Atodiad A –

Cod y Gweinidogion a chwynion: sut y cymhwysir y canllawiau

**1.** Oeddech chi'n gweithredu fel cynghorydd annibynnol o dan delerau'r Cod pan wnaethoch chi ymchwilio i p'un a oedd cyn-Ddirprwy Weinidog y Celfyddydau, Chwaraeon a Thwristiaeth wedi torri Cod y Gweinidogion? Os felly, sut y cawsoch eich penodi?

**2.** Ar 23 Mai, fe wnaethoch ddweud wrth y Pwyllgor eich bod wedi rhoi cyngor dros y ffôn ynghylch achos posibl o dorri Cod y Gweinidogion gan Weinidog yr Economi ar y pryd. Fe wnaethoch ddweud bod rhywun wedi creu copi ysgrifenedig o'r cyngor ar eich rhan. Oeddech chi'n gweithredu fel cynghorydd annibynnol o dan y Cod, ac os felly, sut y cawsoch eich penodi?

**3.** Os nad oeddech yn gweithredu fel cynghorydd annibynnol, ym mha rinwedd y gwnaethoch chi roi cyngor am gyn-Weinidog yr Economi a phwy gomisiynodd y cyngor hwnnw?

**4.** Pam y cyhoeddwyd eich adroddiad ar gyn-Ddirprwy Weinidog y Celfyddydau, Chwaraeon a Thwristiaeth ond nid eich cyngor am gyn-Weinidog yr Economi: a yw hyn yn awgrymu anghysondebau yn y dull gweithredu gan fod paragraff 1.7 o God y Gweinidogion yn nodi y bydd canfyddiadau'r cynghorydd annibynnol yn cael eu cyhoeddi?

**5.** Fe wnaethoch gadarnhau na chafodd ymchwiliad i achos o ddatgelu gwybodaeth ei gomisiynu na'i gynnal gan Lywodraeth Cymru mewn perthynas ag achos diweddar y cyn-Weinidog Partneriaeth Gymdeithasol, ond roedd y cyn-Brif Weinidog wedi gofyn am gyngor, ac wedi cael cyngor, am y broses ar gyfer ymdrin ag achos o dorri Cod y Gweinidogion. A allwch egluro sut y mae Cod y Gweinidogion yn rhyngweithio ag ymchwiliadau i achosion o ddatgelu gwybodaeth?

**6.** Cyn 2021, nid oedd Cod y Gweinidogion yn rhoi unrhyw rôl i'r Ysgrifennydd Parhaol a swyddogion eraill o ran ymchwilio i achosion o dorri Cod y Gweinidogion. Roedd fersiynau o'r Cod rhwng 2007 a 2016 yn dweud yn benodol nad rôl yr Ysgrifennydd Parhaol na swyddogion eraill oedd gorfodi'r Cod, nac ymchwilio i Weinidogion. A allwch egluro beth a ysgogodd y newid hwn, a pham y barnwyd bod hyn yn briodol?